Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Treferthyr

**Cricieth**
**Gwynedd**
**LL52 ORR**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Treferthyr

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Treferthyr |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Cyfrwng Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 115 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 89 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 16 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 12.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 12.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 49.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2023 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 25/11/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Treferthyr yn gymuned ddysgu lwyddiannus sy'n dathlu Cymreictod, cwrteisi, parch a chyflawniad disgyblion yn arbennig o dda. Mae'r pennaeth yn cynnig arweiniad clir a doeth ac yn gwerthfawrogi ymdrechion pawb wrth gyfrannu at addysg gyflawn y disgyblion. Mae staff yn ymrwymo i sicrhau ansawdd uchel o ofal a lles ar gyfer disgyblion ar draws yr ysgol mewn awyrgylch dysgu cartrefol a chefnogol. Mae hyn yn dylanwadu'n gryf ar agweddau'r disgyblion tuag at ei gilydd ac at bobl eraill o fewn a thu hwnt i'r ysgol.

Mae staff yn modelu iaith yn fwriadus a brwdfrydig sy'n cael effaith gadarnhaol ar fedrau llafar y disgyblion o oedran ifanc. Maent yn cydweithio'n llwyddiannus i gynllunio ystod o brofiadau dysgu a chwarae ysgogol i'r disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau sy'n briodol i'w hoedrannau a'u mannau cychwyn yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau llafar a darllen yn fedrus, gan gyfrannu'n bwrpasol mewn trafodaethau dosbarth a mynegi eu barn yn glir ac aeddfed. Er hyn, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion yn y dosbarthiadau uwch ddatblygu eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn effeithiol.

Ar y cyfan, mae athrawon yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion weithio'n annibynnol ac i gydweithio â'i gilydd i ddatrys heriau a chwblhau prosiectau. Er hyn, wrth i'r disgyblion symud drwy'r ysgol, prin yw'r cyfleoedd iddynt wneud dewisiadau am sut i gyflwyno'u gwaith.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi medrau dysgu disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da dros amser yn erbyn eu targedau a'u cyraeddiadau blaenorol.

Mae trefniadau hunanwerthuso a sicrhau ansawdd yr ysgol yn drwyadl. Mae aelodau'r corff llywodraethol yn cefnogi'r pennaeth a'r staff yn bwrpasol. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o gryfderau'r ysgol ynghyd â'r blaenoriaethau ar gyfer gwella gan ddarparu cydbwysedd priodol o gymorth a her.

Mae'r pennaeth, gyda chefnogaeth y staff a'r llywodraethwyr, yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelu mewn ffordd hynod effeithiol a chefnogol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn hapus a diogel yn yr ysgol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1 Ymestyn y cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

A2 Darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion wneud dewisiadau am sut i gyflwyno'u gwaith

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae Ysgol Treferthyr yn gymuned ofalgar, gynhwysol a chroesawgar sy’n sicrhau bod lles pob disgybl yn greiddiol i’w datblygiad. Mae’r pennaeth a’r staff yn hybu gwerthoedd moesol gan osod disgwyliadau uchel, fel cwrteisi a magu parch, ymysg y disgyblion.

Mae gweledigaeth yr ysgol, sef ‘Codi Castell. Creu dy hanes.’, yn rhoi pwyslais clir ar sicrhau seiliau cadarn i bob disgybl ac mae’r pennaeth yn ei chyfleu’n llwyddiannus. Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel o’i hun, y staff a’r disgyblion, ac o ganlyniad, mae ethos gofalgar a gweithgar yn treiddio trwy holl weithgareddau’r ysgol. Mae’n gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol ac yn creu diwylliant sy’n hyrwyddo gwelliant parhaus. Mae staff yn modelu iaith yn fwriadus a brwdfrydig sy’n cael effaith gadarnhaol ar fedrau llafar Cymraeg y disgyblion o oedran ifanc.

Mae staff yn cynllunio gweithgareddau difyr yn yr ardaloedd dysgu sy’n cyfrannu’n effeithiol at ddatblygu medrau cyfathrebu, cymdeithasol a chydweithiol y disgyblion. Mae defnydd bwriadus o’r ardaloedd allanol yn cefnogi lles disgyblion ac yn datblygu agweddau cadarnhaol at eu dysgu.

Mae staff yn darparu cwricwlwm pwrpasol sy’n galluogi disgyblion i ddatblygu eu medrau ar draws y meysydd dysgu a phrofiad. Maent yn cynnwys syniadau’r disgyblion yn fwriadus wrth gynllunio gweithgareddau dysgu sy’n ennyn eu diddordeb ac yn rhoi cyfleoedd iddynt ddylanwadu ar gynnwys y themâu dysgu fesul tymor. Er enghraifft, fel rhan o thema’r Rhyfel Byd Cyntaf, mae staff a’r disgyblion hynaf wedi cydweithio ag un o deuluoedd yr ysgol i gyfoethogi eu profiadau dysgu. Mae hyn yn cyfrannu at gynyddu perchnogaeth y disgyblion tuag at y gweithgareddau a brwdfrydedd yn eu dysgu.

Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ystod o fedrau yn dda. Maent yn gwrando’n astud ar gyfarwyddiadau oedolion a chyfraniadau ei gilydd. Mae medrau llafar a darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n effeithiol. Mae staff yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd, sy’n cynnwys cyfleoedd i’r disgyblion ieuengaf ymdrin â llythrennau mewn gweithgareddau ymarferol a’r disgyblion hynaf i ysgrifennu portread o Buddug fel rhan o waith thema’r Celtiaid. Wrth iddynt symud drwy’r ysgol, mae medrau rhif a mathemategol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n gadarn. Er hyn, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd bwriadus i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm, yn enwedig ym mlynyddoedd uwch yr ysgol.

Mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n gadarn, sy’n cynnwys cyfleoedd i’r disgyblion ieuengaf lunio animeiddiad a chyflwyno troslais o gymeriad o stori a chyfleoedd i’r disgyblion hynaf gynhyrchu cyflwyniad digidol am gadw’n

ddiogel ar-lein. Mae staff yn darparu cyfleoedd amrywiol i ddatblygu medrau creadigol ac artistig disgyblion, sy’n cynnwys arbrofi gydag offerynnau cerdd yn yr ardaloedd allanol a’r disgyblion hynaf yn cynllunio golygfa i gyd-fynd ag arwyddair newydd yr ysgol.

Mae athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu pwrpasol sy’n cefnogi’r disgyblion i adnabod eu cryfderau a’r meysydd sydd angen eu gwella o fewn eu dysgu. Maent yn defnyddio’r wybodaeth am gynnydd disgyblion o ran eu medrau yn effeithiol i bennu eu camau dysgu nesaf. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a’r rhai sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd cadarn o’u mannau cychwyn. Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i’r adborth llafar a digidol maent yn ei gael gan staff ac yn dechrau defnyddio’r adborth yn effeithiol i wella’u gwaith.

Mae staff yn diwallu anghenion y disgyblion yn fwriadus trwy ddarparu cyfleoedd buddiol iddynt weithio ar eu gweithgareddau yn annibynnol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau’r disgyblion. Er hyn, wrth i’r disgyblion symud drwy’r ysgol, prin yw’r cyfleoedd iddynt wneud dewisiadau am sut i gyflwyno’u gwaith.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn effeithiol. Mae staff yn darparu gofal, lles a darpariaeth werthfawr sy’n cefnogi’r disgyblion i wneud cynnydd priodol yn eu targedau personol, sy’n glir, yn benodol ac yn fesuradwy. Mae’r ysgol yn gwneud defnydd hynod effeithiol o arbenigedd allanol, er enghraifft trwy weithredu dulliau i gefnogi anghenion emosiynol disgyblion penodol. O ganlyniad, mae disgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd cryf yn erbyn eu targedau.

Mae staff yn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu hymwybyddiaeth ysbrydol a moesol yn dda. Er enghraifft, o fewn y gwasanaethau torfol, maent yn darparu cyfleoedd addas i’r disgyblion fyfyrio ar faterion moesegol pwysig, gan gynnwys dangos caredigrwydd a phwysleisio pwysigrwydd hawliau plant o fewn cymdeithas. Mae cyfleoedd bwriadus i’r disgyblion hynaf gymryd rhan mewn gweithgareddau sy’n eu hargyhoeddi nad yw hiliaeth yn dderbyniol mewn cymdeithas.

Mae’r cyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol yn datblygu, gydag aelodau’r cyngor ysgol wedi cydweithio â swyddogion yr awdurdod lleol i sefydlu man diogel i gadw beiciau'r disgyblion. Mae bron bob disgybl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau iechyd a chorfforol, er enghraifft drwy deithio ar feic i’r ysgol, mynychu sesiynau nofio a mwynhau’r cyfleoedd i gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o gystadlaethau chwaraeon. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol a lles yn briodol.

Mae’r pennaeth a’r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o dystiolaeth ynglŷn ag ansawdd yr addysgu a’r cwricwlwm i fonitro cynnydd disgyblion. Gwneir hyn yn llwyddiannus drwy drafodaethau staff a gweithgareddau gwerthuso, sy’n cynnwys teithiau dysgu a chraffu ar waith disgyblion. Mae arweinwyr yn defnyddio’r wybodaeth yn llwyddiannus i adnabod cryfderau’r ysgol a’r meysydd i’w gwella.

Mae’r pennaeth wedi creu diwylliant cadarnhaol i hybu a chefnogi dysgu proffesiynol yr holl staff. Mae staff yn ymgymryd ag ystod dda o ddysgu proffesiynol, sy’n ymateb

i'w gofynion unigol a blaenoriaethau'r ysgol yn synhwyrol. Enghraifft dda o hyn yw staff dosbarth y disgyblion ieuengaf yn addasu eu dulliau i hybu annibyniaeth y disgyblion yn seiliedig ar arsylwadau, gan roi pwyslais ar ddysgu trwy chwarae.

Mae'r llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol a'i chymuned yn drwyadl ac yn eiriolwyr cryf i'r ysgol. Mae ganddynt adnabyddiaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Maent yn darparu cymorth a her briodol i'r pennaeth ac wedi cymryd rhan flaenllaw yn ystod y symud i'r adeilad newydd eleni.

Agwedd nodedig o waith yr ysgol yw ei rôl o fewn ei chymuned ehangach. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn ymfalchïo eu bod yn cynnal a chadw'r ardd gymunedol yng nghanol y dref. Maent yn elwa o gymryd rhan mewn sawl digwyddiad yn y gymuned, gan gynnwys 'Croeso Dolig Cricieth' ac ymweliadau i'r cartrefi henoed lleol. O ganlyniad, mae'r profiadau'n cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygu disgyblion i fod yn ddinasyddion aeddfed a chydwybodol sy'n arddangos gofal a pharch at eu hamgylchfyd.

Mae'r rhieni'n ymfalchïo bod eu plant yn mynychu'r ysgol ac yn gwerthfawrogi'r profiadau gwerthfawr ynghyd â'r gofal a'r lles arbennig sy'n cael ei ddarparu gan staff.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y **caiff** ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/01/2025